PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD MERCHER, 6 MEDI 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd McGarry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ahmed, Carter, Jenkins, Kelloway a/ac Lent |

10 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEBAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Ali a'r Cynghorydd Goddard.

11 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

12 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod Pwyllgor Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2017 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

Nodwyd cofnodion Cyd-Bwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc a Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2017.

13 : RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU AR WASANAETHAU CYMUNEDOL AC OEDOLION 2017/18

Amlinellodd Alison Jones, y Prif Swyddog Craffu, y rhaglen waith i'r Aelodau.

Gofynnwyd i aelodau ystyried pa eitemau yr hoffent eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llawn, a pha eitemau y dylid bod yn Ymholiad Gorchwyl a Gorffen. Ystyriwyd y byddai Pontio Cymunedau yn Gyntaf yn addas ar gyfer y pwyllgor llawn ac y byddai tai cyflym yn fwy addas fel briff i'r Pwyllgor. Awgrymwyd Cymryd Cyffuriau fel Mater Craffu ar y Cyd ag Ymholiad Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc. Rhoddwyd gwybod i Aelodau y byddai rhagor o ymholiadau ar Ddiogelwch mewn Parciau a Diogelwch Cymunedol yn cael eu cynnal yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Gofynnwyd i aelodau ystyried a oeddent eisiau i Berfformiad gael ei ystyried yn y pwyllgor llawn neu ar Banel Perfformiad. Nodwyd bod y Pwyllgor yn treulio llawer o amser yn llunio adroddiadau perfformiad a bod y Panel yn gweithio'n dda yn yr ychydig flynyddoedd a fu. Byddai'r panel perfformio'n cwrdd bob chwarter. Cytunwyd ar y dull hwn gan Aelodau.

Ystyriodd Aelodau amserlen y cyfarfodydd ac awgrymu eitemau agenda wrth symud ymlaen. Nodwyd bod yr agendâu ar gyfer y ddau gyfarfod nesaf yn eithaf ysgafn a cheisiwyd awgrymiadau ar gyfer eitemau i'w hystyried. Awgrymodd Aelodau eitemau megis Cymunedau yn Gyntaf, Tai Gwarchod, Byw'n Annibynnol a Llety Pobl Hŷn. Nododd y Cadeirydd y gall fod eitemau gan y Cabinet y byddai angen eu hystyried, felly roedd hi'n well cadw rhywfaint o hyblygrwydd yn yr agendâu.

14 : PERFFORMIAD CHWARTER 1 2017/18 – CRAFFU AR WAITH MONITRO PERFFORMIAD O ADRODDIAD PERFFORMIAD CHWARTER UN.

Croesawodd y Cadeirydd i'r cyfarfod y Cynghorydd Lynda Thorne, yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau; y Cynghorydd Susan Elsmore, yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd; Sarah McGill, Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid; Jane Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Tai a Chymunedau; Tony Young, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol; Amanda Phillips, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion ac Isabelle Bignall, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Cwsmeriaid.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Lynda Thorne, yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau, i wneud datganiad ynghylch craffu ar berfformiad o ran Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid, a dywedodd:

Roedd rhywfaint o gynnydd da iawn o ran darparu cartrefi cyngor newydd drwy Raglen Cartrefi Caerdydd ac mae gwaith wedi dechrau ar 192 o unedau ar y safle yn Willowbrook West

Roedd yr Aelod Cabinet yn awyddus er mwyn cyrraedd targed y Cyngor o 1000 o gartrefi cyngor newydd mewn 5 mlynedd, dylai adeiladu ar safleoedd y tu allan i'r Bartneriaeth. Cafodd y safle ar Caldicot Road ei gyflwyno ar gyfer cynllunio a fyddai'n darparu 16 o unedau ychwanegol ac roedd hi'n gobeithio y gallent gyflwyno safleoedd eraill yn fuan gan wneud y defnydd gorau o gronfa tai arloesol Llywodraeth Cymru.

Y prif fater ar gyfer Caerdydd ar hyn o bryd yw gweithredu strategaeth cysgu ar y stryd – mae Caerdydd yn helpu mwy o bobl nag erioed oddi ar y stryd ond mae nifer y bobl sy'n dod i'r ddinas yn cynyddu'n gynt nag erioed. Mae'r strategaeth yn un gynhwysfawr a nododd yr Aelod Cabinet ei bod yn bwriadu parhau i ganolbwyntio ar ddarparu pob llinyn gan gynnwys dull cadarn o fynd i'r afael â begera ymosodol.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet pa mor falch y bu hi â'r cynnydd yn Llys Sandown yng Nghaerau a Llys John Kane yn Nraenen Pen-y-graig – ill dau wedi derbyn gwobrau platinwm gan y RNIB ac yn gwneud y defnydd gorau posib o stoc bresennol er mwyn bodloni'r angen am fwy o ddewisiadau byw'n annibynnol a rhai gwell ar draws y ddinas. Ychwanegodd fod y maes hwn yn un yr oedd hi'n edrych ymlaen at gynyddu cydweithio gyda'r Cyng. Elsmore, ac y byddai'n brofiad gwerthfawr pe dymunai'r Pwyllgor ymweld â'r safleoedd hyn.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Susan Elsmore, yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd gan y Cadeirydd i wneud datganiad. Ynddo nododd y byddai'n ategu sylwadau'r Cynghorydd Thorne ynghylch Llys Sandown a Llys John Kane fel cyfleusterau gwych ar gyfer preswylwyr a'r gymuned leol.

Eglurodd y Cynghorydd Elsmore ei bod hi a'r Cynghorydd Thorne wedi cwrdd â'r Fro ynghylch y Bartneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig; roedd gwir awydd i weithio ar draws y rhanbarth ar y cynnig Tai a Gofal.

Dymunodd y Cynghorydd Elsmore longyfarch y Pwynt Cyswllt Cyntaf. Bellach, nid yw 70% o alwadau'n cyrraedd y Gwasanaethau Cymdeithasol a oedd yn llwyddiant ysgubol ac yn dangos y math o gyfeirio a chymorth gwych oedd yn cael eu cynnig.

O ran Teleofal, bu sgwrs gyda Bro Morgannwg, ac uchelgeisiau i gydweithio yma hefyd. Roedd pobl angen gwybod lle i gael gwybodaeth, lle i fynd a beth i'w wneud ac ati.

O ran Pryd ar Glud, bu'r Cynghorydd Elsmore yn ymweld yn ddiweddar ac roedd hi wedi'i phlesio'n fawr, yn enwedig ag ymgysylltiad a brwdfrydedd staff.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau ynghylch craffu ar Berfformiad Gwasanaethau Cwsmeriaid, Cymunedau a Thai.

- Roedd Aelodau'n cefnogi'r ymagwedd lle y caiff pobl eu hannog i beidio â rhoi arian i bobl ddigartref. Gofynnodd Aelodau faint o bobl oedd yn cysgu ar strydoedd Caerdydd ar hyn o bryd. Rhoddwyd gwybod gan swyddogion fod 70 o gysgwyr ar y stryd ar hyn o bryd, sef yr uchaf y mae erioed wedi bod. Fodd bynnag, nodwyd bod nifer cynyddol yn dod o'r tu allan i Gaerdydd (tua 40%). Ar hyn o bryd, mae Caerdydd yn helpu mwy o bobl nag erioed oddi ar y strydoedd. Ystyriwyd bod hyn oherwydd y gwasanaethau gwych a gynigir gan Gaerdydd.

- Gofynnodd Aelodau am fwy o wybodaeth am waith ailgysylltu. Rhoddwyd gwybod gan swyddogion fod Caerdydd yn ariannu Byddin yr Iachawdwriaeth i gyflawni'r gwaith ailgysylltu, gan fod ganddynt gysylltiadau yn Ewrop a thu hwnt; cafwyd llawer o lwyddiant ond mae'n rhaid nodi nad yw rhai pobl eisiau mynd yn ôl i'w trefi genedigol gan fod gwasanaethau'n well yng Nghaerdydd.

- Ystyriodd Aelodau fod y perfformiad yn dangos darlun cadarnhaol ar y cyfan. Ceisiodd Aelodau eglurhad ar gyfanswm nifer y cartrefi a brosesir drwy'r system Grant Cyfleusterau i'r Anabl gan fod yr adroddiad yn dangos bod y niferoedd yn sefydlog. Cadarnhaodd swyddogion fod hyn yn gywir a rhagfynegasant y byddai niferoedd yn parhau'n sefydlog yn yr un modd, felly y byddai'r cyllid yr un fath wrth symud ymlaen. Fodd bynnag, byddai hyn y cael ei fonitro oherwydd gall galw newid yn gyflym.

- Gofynnodd Aelodau beth oedd canran y bobl a oedd yn cael eu gwrthod am grantiau cyfleusterau i'r anabl. Esboniodd swyddogion y gwrthodwyd nifer fach iawn am resymau ariannol. Gwrthodwyd rhai am beidio â phasio'r Asesiad Iechyd Galwedigaethol.

- Cyfeiriodd Aelodau at darged ffigwr incwm y Ganolfan Derbyn Larymau a gofyn a oedd hwn yn ffigwr realistig o ystyried bod llawer o ganolfannau galw yng Nghaerdydd yn cystadlu. Esboniodd swyddogion y dylid bodloni hyn. Nododd swyddogion na roddir unrhyw Gyllid Cyffredinol i Teleofal; mae'n cyfrannu £250k yn flynyddol i Bot y Gronfa Gyffredinol. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr ei fod yn darparu amrywiaeth eang iawn o wasanaethau; byddai hi'n rhagweld ei fod o dan y targed neu'n agos ato o ran arbedion.

- Cyfeiriodd Aelodau at wasanaethau i Mewn i Waith a Chredyd Cynhwysol a gofyn a oedd modd cyflawni'r targed. Nododd swyddogion fod y gwasanaeth

hwn yn cael ei ddarparu ar ran y Ganolfan Byd Gwaith. Ym mis Chwefror, bydd Caerdydd yn gweithredu Gwasanaeth Credyd Cynhwysol llawn, felly bydd yn cyrraedd uchafbwynt, ac mae'r targed hwn ar gyfer y flwyddyn gyfan, felly bydd ffigyrau'n cynyddu'n sydyn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r ffigwr 123 yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at nifer y bobl a atgyfeiriwyd gan y Ganolfan Waith a oedd angen cymorth mewn meysydd megis cyllidebu neu gymorth technegol ar-lein.

- O ran blaenoriaeth 3, gofynnwyd i Aelodau pam mai dim ond dyletswydd o 50% oedd er mwyn atal digartrefedd. Esboniodd Swyddogion yn aml nad oedd llawer o gyfle i atal. Roeddent bob amser yn ceisio gwella, roedd mwy o wasanaethau ar gael mewn Hybiau a chynhelir sesiynau ar chwilio am lety Tai Sector Rhent Preifat. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod hwn yn ddangosydd newydd, felly roedd yn anodd pennu targed heb hanes i'w ddilyn.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Susan Elsmore, yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol gan y Cadeirydd i wneud datganiad ynghylch craffu ar berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion, a nodwyd ganddi y perfformiad da yn y maes hwn. Bu gostyngiad parhaus mewn achosion o Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal, gan ddangos bod y gwaith sy'n cael ei wneud yn talu ar ei ganfed. Bu gwelliant o ran asesu gofalwyr ac roedd gwaith yn ymwneud â Dinas Demensia Gyfeillgar yn datblygu. Roedd llawer o waith yn cael ei wneud ar lawr gwald gyda chydweithwyr ym maes Iechyd ynghylch Rhyddhau o'r ysbyty.

Rhoddwyd diweddariad i'r Pwyllgor gan yr Aelod Cabinet ar y gwaith yn Grand Avenue a fyddai'n rhan greiddiol wrth ddarparu Gwasanaethau Demensia.

Amlinellwyd y materion allweddol yn yr adroddiad i'r aelodau gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a nodwyd bod y dyfodol yn ddisglair. Roedd dal heriau i ddod ond roedd perfformiad yn gwella.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Cyfeiriodd Aelodau at asesiadau gofalwyr a gofyn beth oedd yn cael ei wneud o ganlyniad iddynt. Esboniodd swyddogion eu bod yn sefydlu data ansoddol ar hyn o bryd. Bellach, ar ôl sefydlu'r tîm gofalwyr roedd gwaith ar y gweill.

  Ystyriodd Aelodau bod yr adroddiad i'r weld yn cynnwys ffigurau yn hytrach na chanlyniadau. Nododd swyddogion y gellid rhoi sicrwydd i Aelodau yr esboniwyd boddhad yn holiaduron y defnyddwyr gwasanaeth a'r gofalwyr ac y byddai'r canlyniadau'n deillio o hynny. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr y cafwyd adborth da gan y grŵp defnyddwyr gwasanaeth Gofal Cartref. Ychwanegodd y buont ar ei hôl hi ag asesiadau gofalwyr. Ar ôl bwrw ymlaen â'r rhain, yna y gellid eu hystyried yn fanylach.

- Ceisiodd aelodau eglurder ar wahanol ffigurau yn ymwneud â defnyddwyr Taliad Uniongyrchol mewn Gwasanaethau Oedolion. Cytunodd swyddogion i gyflwyno rhagor o wybodaeth am hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol.

- Cyfeiriodd aelodau at y mesur perfformiad 'canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod' a gofyn am ragor wybodaeth am hyn.

Nododd swyddogion fod angen iddynt geisio gwell mewnwelediad i'r hyn sy'n digwydd ar ôl cwblhau ymholiad er mwyn gwneud y ffigurau'n fwy ystyrlon gan ei bod hi'n anodd i Aelodau fesur llwyddiant gan ddefnyddio'r ffigurau hyn yn unig.

- O ran 26% o swyddi gwag, gofynnodd Aelodau sut y byddai hyn yn effeithio ar wasanaethau. Nododd y Cyfarwyddwr fod swyddi gwag o fewn Gwasanaethau Plant yn parhau i fod yn broblem, er gwaethaf yr holl waith hysbysebu a recriwtio. Roedd y darlun yn well yn y Gwasanaethau Oedolion gan eu bod yn cychwyn gweld newid er gwell. Nododd swyddogion y cafwyd ceisiadau gan bobl â llai o gymwysterau; roedd angen iddynt ystyried y cymysgedd sgiliau ar draws y gwasanaeth a gweld beth y gallai Gweithiwr Cymdeithasol cynorthwyol ei wneud.

- Gofynnodd Aelodau pa ganran o absenoldeb salwch oedd yn ymwneud â straen. Nid oedd gan Swyddogion y ffigurau wrth law, ond nid oeddent yn ymwybodol bod straen yn fater penodol. Esboniodd Swyddogion fod ffigurau salwch yn gyffredinol wedi'u llurgunio rhywfaint gan nifer fach o bobl ar absenoldeb salwch hirdymor. Nododd adborth gan staff fod morâl yn y gwasanaeth yn llawer gwell ers i strwythur rheoli sefydlog fod ar waith.

  Esboniodd Swyddogion fod y Cynllun Gweithredu Salwch yn cael ei ddwyn gerbron y Prif Weithredwr er mwyn dangos beth oedd yn cael ei wneud fel camau salwch a chydymffurfiaeth â'r polisi salwch. Nodwyd bod gweithlu sy'n heneiddio yn y Gwasanaethau Uniongyrchol.

- Gofynnodd Aelodau am ragor o wybodaeth am y Dull Seiliedig ar Gryfder. Esboniodd swyddogion ei fod yn ddull sy'n dilyn gwaith cymdeithasol traddodiadol, yn hytrach na chanolbwyntio ar reoli perfformiad a phrosesau fel ag y bu yn y blynyddoedd diwethaf. Roedd yn canolbwyntio unwaith eto ar siarad â phobl a gofyn beth maen nhw eisiau, gan adeiladu ar gryfderau yn hytrach na rhoi pwyslais ar beryglon/gwendidau a defnyddio'r gymuned a'r teulu ehangach i gynorthwyo. Roedd Swyddogion yn gobeithio i fod y cyntaf i weithredu hyn mewn Gwasanaethau Oedolion ac roedd staff yn awyddus i fod yn rhan o hyn.

CYTUNWYD – bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

15 : STRATEGAETH DEMENSIA DDRAFFT CAERDYDD A'R FRO 2017-2027

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Susan Elsmore, yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd; Tony Young, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol; Amanda Phillips, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion a Dr Suzanne Wood, Bwrdd Iechyd y Cyhoedd Caerdydd a'r Fro i'r cyfarfod.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar Strategaeth Ddemensia Caerdydd a'r Fro 2017-2027 gan Amanda Phillips ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Roedd Aelodau'n falch o weld bod y strategaeth yn un uchelgeisiol a bod rhagor o ymwybyddiaeth yn enwedig mewn ysgolion.

- Nododd Aelodau fod uchelgais i rannu gwybodaeth rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol a gofynasant a oedd cyflawni hyn dros y tair blynedd yn realistig. Nododd Swyddogion y byddai camau syml i gychwyn. Bydd offeryn yn canolbwyntio ar yr unigolyn, sef ‘Dysgu amdanaf i’, yn dilyn unigolion o leoliad cartref gofal/cymunedol i’r ysbyty.

- Ynglŷn ag arwahanu ac unigrwydd, rhoddwyd gwybod i Aelodau fod y Cyngor ar hyn o bryd yn ystyried technoleg newydd i’w pheilota yn yr agenda ataliol. Ystyriodd Aelodau nad oedd adrannau 7 ac 8 yn y Strategaeth yn cyfeirio digon at Ganolfannau Dydd a’r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud. Croesawodd Swyddogion y sylwadau hyn ac ystyried y gallent dynnu rhagor o sylw at nifer y mentrau sydd ar waith ar hyn o bryd, yn y Strategaeth.

- Cyfeiriodd Aelodau at Amcan Strategol 7 – Gofelir am ofalwyr, a gofyn pa mor hyderus oedd swyddogion y gellid cyflawni’r amcan hwn.  Esboniodd Swyddogion ei bod yn rhwymedigaeth statudol i ddarparu seibiant. Cydnabu Llywodraeth Cymru bwysigrwydd hyn.  Ond roedd her yn parhau o ran gofalwyr anffurfiol.

- Roedd Aelodau’n pryderu bod llawer o ofalwyr hŷn a gofynasant a ystyrid y rhain mewn ‘braced’ arbennig.  Cydnabu Swyddogion fod y maes hwn angen rhagor o waith, roedd tîm o ofalwyr ymroddedig erbyn hyn felly roedd swyddogion yn gobeithio gweld gwelliant mewn perfformiad.

- Gan gyfeirio at Amcan Strategol 3 – Byddwn yn mynd i’r afael ag arwahanu ac unigrwydd, gofynnodd Aelodau a oedd digon o fanylder yn yr adran hon gan ei fod yn ffactor mor arwyddocaol.  Cytunwyd y gellid addasu rhywfaint o'r iaith yn yr adran hon, gan egluro mwy ei fod yn sôn am bethau megis cynllunio briffio, cymdeithasu a seibiant.  Darparwyd rhagor o wybodaeth i Aelodau am sut y gellid hyfforddi pobl i fod yn fwy ymwybodol o ddemensia a nodi arwyddion o ddemensia, a hefyd am gynlluniau byw a rennir lle y caiff llety myfyrwyr ei ddatblygu ochr yn ochr â chartrefi ar gyfer cleifion demensia. Amlinellwyd mentrau eraill megis Good Gym i Aelodau.

- Gofynnodd Aelodau a fu Deddf Llesiant y Gwasanaethau Cymdeithasol a Deddf Cenedlaethau’r Dyfodol o fudd neu a fu’n rhwystr wrth ddatblygu'r strategaeth.  Rhoddwyd gwybod i Aelodau y buont yn allweddol wrth ysgogi eglurder meddwl a chefnogi ac annog meddwl/gweithio creadigol ar y cyd. Roedd gweledigaeth hirdymor Deddf Cenedlaethau’r Dyfodol yn bwysig iawn i’r agenda hon.
- Gofynnodd Aelodau a oedd y strategaeth yn rhannu barn Strategaeth Llywodraeth Cymru.  Esboniodd Swyddogion eu bod yn aros am lansiad Strategaeth Llywodraeth Cymru. Câi Strategaeth Caerdydd a'r Fro ei lansio ar ôl hynny i sicrhau cysondeb.

- Cyfeiriodd Aelodau at y cynllun ‘Mae’r hyn sy’n llesol i’r galon yn llesol i'ch Iechyd’ mewn cysylltiad ag Ataliaeth a gofyn a oedd hwn ar gael yn rhan o’r gwiriadau iechyd 50+ a’r gwiriadau meddygol. Rhoddwyd gwybod gan Swyddogion fod yna wiriad iechyd ar-lein y gellid ei hyrwyddo’n ehangach. Byddai ymgyrchwyr iechyd wrth symud ymlaen yn ymgorffori mwy ar Ddemensia ac Alzheimers gan nad yw pobl yn ymwybodol y gellid atal y rhain.

- O ran atebolrwydd, gofynnwyd i Aelodau a fyddai cynlluniau cyflwyno ar wahân. Rhoddwyd gwybod i Aelodau y byddai Grŵp Comisiynau a Grŵp Gweithredu, roedd yn ddull aml-asiantaeth ond byddai un cynllun gweithredu.

- Gofynnodd Aelodau a oedd ‘Argyfwng’, y pwynt mynediad unigol, wedi’i hysbysebu’n ddigon da a rhoddwyd gwybod bod hyn yn rhywbeth ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol.

- Nododd Aelodau fod angen mynd i’r afael â rhai pwyntiau gweithredu yn gynt na rhai eraill a gofynasant sut y byddid yn nodi’r rhain. Rhoddwyd gwybod i Aelodau y ceisiwyd blaenoriaethau gan wahanol grwpiau, roedd y cynllun gweithredu nesaf ar gyfer y tair blynedd nesaf; ac yna y byddai rhaglen dreigl o gynlluniau gweithredu.

- Gofynnodd Aelodau sut y bydd y Strategaeth yn mynd i’r afael â’r rhai hynny sydd ag anghenion arbenigol a phenodol iawn a rhoddwyd gwybod iddynt y cynhaliwyd Asesiad Anghenion o’r Effaith ar Gydraddoldeb, sy’n gwneud y Strategaeth yn realistig ar gyfer anghenion pobl.

CYTUNWYD – bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu arsylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

16 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

4 Hydref 2017 yw’r dyddiad sydd wedi’i bennu ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu ar Wasanaethau Cymunedol ac Oedolion.